

Trosolwg o Gasgliadau'r Ymgynghoriad

Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a
Chymwysterau Cysylltiedig – Ton 2

Fersiwn 1.0



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cynnwys

Cefndir.....	1
Adborth Cyffredinol.....	2
Adborth pwnc-benodol	5
Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol	5
TGAU Dawns	5
TGAU Ffilm a'r Cyfryngau Digidol	5
Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau.....	7
TGAU Astudiaethau Cymdeithasol.....	7
Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant	8
TGAU Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.....	8
TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd	9
Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd.....	10
Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol	10
Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg.....	11
TGAU Dylunio a Thechnoleg.....	11
TGAU Technoleg Ddigidol.....	11
TGAU Gwyddoniaeth Gyfannol (Gradd Unigol)	12
TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)	12

Cefndir

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru Feini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cyfres o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig (<https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/cymwysterau-cenedlaethol-14-16/cymwysterau-cenedlaethol-tgau/>). Penderfynodd Cymwysterau Cymru y byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu cyflwyno fesul cam; Cynhyrchodd a chyhoeddodd CBAC y don gyntaf o gymwysterau eisoes ac mae'r rhain ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025. Bellach, mae CBAC yn datblygu'r ail don o gymwysterau sydd i fod ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026.

Cafodd Grŵp Cyngori ar Ddatblygu Pynciau ei recriwtio i bob pwnc gan CBAC a thrafodwyd cynigion ar gyfer pob cymhwyster. Datblygwyd egwyddorion ac arweiniad gennym yn ogystal er mwyn sicrhau bod y cymwysterau a ddatblygir yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar sail y Meini Prawf Cymeradwyo, ein hegwyddorion ac arweiniad a'r trafodaethau gyda'r Grwpiau Cyngori, datblygwyd amlinelliad o'r cymhwyster i bob cymhwyster. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar lefel uchel ar y strwythur, dibenion unedau a'r dull asesu.

Cyn mynd ati i ddefnyddio'r amlinelliadau hyn fel sail ar gyfer datblygu ein manylebau a deunyddiau asesu enghreifftiol manwl, roeddem yn awyddus i glywed gan ddewis ehangach o randdeiliaid. Felly cynhaliwyd ymgynghoriad agored ar ein gwefan mewn dau gam:

Cymwysterau Ton 2

- TGAU Dawns
- TGAU Ffilm a'r Cyfryngau Digidol
- TGAU Astudiaethau Cymdeithasol
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd
- Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol
- TGAU Dylunio a Thechnoleg
- TGAU Technoleg Ddigidol
- TGAU Gwyddoniaeth Gyfannol (Gradd Unigol)
- TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)

Agorodd yr ymgynghoriad ar 18 Tachwedd 2024 gan ddod i ben ar 6 Rhagfyr 2024. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb ohonoch oedd yn barod i rannu eich barn gyda ni rhan o'n hymrwymiad i gyd-awduro'r cymwysterau hyn.

Ers hynny, rydym wedi dadansoddi ac ystyried yr adborth yng nghyd-destun gofynion Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud yn sgil hynny.

Rhodddwyd ystyriaeth yn ogystal i sgysiau a gafwyd ar lefel cyfres gyda'n Grŵp Cyngori ar Ddatblygu, Grŵp Cyngori Dysgwyr, Grŵp Cyfeirio Undebau a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid sy'n gyffredinol i'r TGAU a chymwysterau cysylltiedig yn ystod y gwaith o ddatblygu'r amlinelliadau Ton 1.

Mae llawer o'r sylwadau a wnaed yn berthnasol ar draws sawl pwnc – mae'r rhan adborth cyffredinol yn crynhoi'r materion hyn. Mae trosolwg o adborth pwnc-benodol yn dilyn, wedi'i grwpio yn ôl Maes Dysgu a Phrofiad.

Adborth Cyffredinol

Derbyniwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan i'r ymgynghoriad gyda'r ymatebwyr yn cytuno'n fras bod strwythurau'r cymwysterau yn briodol; bod dibenion yr unedau yn briodol ac yn ddeniadol i ddysgwyr a hefyd yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster; bod y dull asesu yn briodol ac y byddai'r cymwysterau yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Cafwyd rhai eithriadau penodol i bynciau – Y Gwyddorau (Dwyradd) yn bennaf. Mae mwy o fanylion o ran y pryderon a fynegwyd i'w cael yn rhannau pwnc-benodol yr adroddiadau.

Cafwyd y lefelau isaf o gytundeb am yr elfen hydrinedd, i'r dysgwyr a'r canolfannau fel ei gilydd. Roedd mwyafrif y pryderon hyn yn ymwneud â'r gyfran o asesu di-arholiad, ond cafwyd rhai sylwadau yn ogystal ynghylch hydrinedd yn ymwneud â swm y cynnwys ac elfennau penodol o asesiadau.

Asesu Di-arholiad

Mynegwyd pryderon ynghylch faint o asesu di-arholiad sydd yna, o ran cymwysterau unigol ac ar draws y gyfres o gymwysterau. Roedd hynny'n rhywbeth cwbl amlwg yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad, gan gynnwys mewn perthynas â llwyth gwaith athrawon

Rhaid nodi nad yw CBAC yn gallu newid faint o asesiadau di-arholiad sydd yna nac ychwaith y gyfran sydd i'w marcio gan yr ysgolion, yn y TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig newydd. Ystyriodd Cymwysterau Cymru gyfran yr asesiadau di-arholiad a'i ddull marcio yn ystod y broses o ddatblygu'r Meini Prawf Cymeradwyo, ac mae eu penderfyniadau terfynol yn cael eu hadlewyrchu yn eu Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig y mae'n rhaid i ni gadw atynt. Nododd Cymwysterau Cymru yn ei adroddiad ymgynghori ym mis Mehefin 2023 y byddai cyflwyno cyfran fwy ac amrywiaeth o asesiadau di-arholiad 'yn ei dro yn arwain at fwy o lwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu i ysgolion' (<https://qualifications.wales/media/dkcisr1u/made-for-wales-gcses-main-consultation-report-january-2024-update.pdf>). Mae Cymwysterau Cymru wedi gofyn i ni sicrhau hydrinedd, o fewn paramedrau'r Meini Prawf Cymeradwyo – byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni fynd ati i ddatblygu manylion y cymwysterau.

Teimlwn ei bod yn bwysig i ni ddefnyddio'r sgwrsiau a gafwyd wrth ddatblygu'r cymwysterau a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025. Un o'r prif themâu ddaeth i'r amlwg wrth i ni drafod â'n grwpiau rhanddeiliaid cyffredinol ac a ategwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd tegwch i ddysgwyr. Yn ei ganllawiau ar lesiant, tegwch a chynhwysiant ([Addysgu a dysgu - Hwb](#)) mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio tegwch fel cael cyfle cyfartal i gyflawni mewn asesiadau, bod yr un deunyddiau a gofodau ar gael, tasgau asesu di-duedd, atal tuedd neu stereoteipio a chaniatáu i'r asesiad fod ar gael i fyfyrwyr heb ystyried beth yw eu cefndir. Teimlai rhai rhanddeiliaid bod asesu di-arholiad yn gallu anfanteisio rhai dysgwyr ymhellach. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys y sawl sydd heb gefnogaeth na mynediad at adnoddau digonol gartref. Er y gall rhieni neu ofalwyr ddarparu cefnogaeth adolygu hefyd, gallai effaith y gefnogaeth sydd ar gael gartref fod yn fwy o ran asesu di-arholiad lle mae gofynion yr asesiadau di-arholiad yn glir ymlaen llaw a bod modd felly targedu mwy ar y gefnogaeth. Nid oedd rhai rhanddeiliaid yn credu bod hyn yn cyfateb i nodau Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl (<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-03/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-a-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf>) Llywodraeth Cymru nac i'w dogfen Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol (<https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-2022>).

Wrth i ni ddatblygu ein TGAU i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, nododd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod yn teimlo y dylai rheolaethau priodol fod yn eu lle i sicrhau bod pob ysgol yn asesu'n deg. Fel arall, gallai fod diffyg hyder yng nghanlyniadau cymwysterau a byddai hynny wedyn yn arwain at roi llai o werth ar gyraeddiad dysgwyr. Ategwyd y safbwynt hwn gan y mwyafrif o'r rhanddeiliaid y buom yn ymgysylltu â nhw yn ein grwpiau rhanddeiliaid cyffredinol, gan gynnwys ein Grŵp Cyngori Dysgwyr. Roedden nhw'n hynod o bryderus am y diffyg tegwch posibl i bawb yn y drefn asesu di-arholiad.

Nodwyd yn ein trafodaethau yn ogystal y gallai cynyddu pwysoli'r asesiadau di-arholiad arwain at fwy o debygolrwydd o gamymddwyn, a chymhelliant i wneud hynny. Mynegodd sawl ymatebwr bryder am Ddeallusrwydd Artiffisial a sut i fonitro hynny. Mynegwyd pryder y gallai rheolaethau isel ei gwneud yn anodd i fonitro'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial, gan fygwth tegwch i ddysgwyr.

Fodd bynnag, roedd safbwynt un o'r grwpiau rhanddeiliaid yn wahanol ar yr hyn oedd yn effeithio ar degwch. Gofynnodd am gael amrywiaeth o ddulliau asesu yn y TGAU, yn canolbwyntio ar ddulliau asesu parhaus sy'n seiliedig ar gymhwysedd, yn hytrach na gwaith cwrs neu brofion bach, er mwyn sicrhau'r tegwch mwyaf posibl. Teimlai'r grŵp hwn y dylai'r rheolaethau fod yn isel a mwy o ffydd yn cael ei roi ar asesu gan athrawon.

Pan fyddwn yn cyflwyno ein cymwysterau i'w cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, rhaid i ni ragnodi sut rydym wedi llwyddo i gydbwyso hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd. Yn ôl gofynion Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru hefyd dylai ein cymwysterau ni, cyn belled ag y bo modd, sicrhau dilysrwydd, dibynadwyedd, cymaroldeb, hydrinedd a lleihau tuedd i'r eithaf. Mae angen i ni sicrhau hefyd ein bod yn cydbwyso'r ffactorau hyn orau y gallwn ni yng nghyd-destun y cymhwyster penodol hwnnw.

Byddwn yn parhau i roi tegwch dysgwyr wrth wraidd ein gwaith dylunio ac wrth wneud penderfyniadau o ran asesiadau di-arholiad ar gyfer y cymwysterau hyn sydd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026. Mae'n bosibl y bydd canolbwyntio ar degwch fel hyn yn arwain at reolaethau a fydd yn cyfyngu rhywfaint ar yr hyblygrwydd a allai fod wedi helpu canolfannau i gydbwyso rhai o'r pryderon ynghylch hydrinedd. Nid yw sicrhau bod digon o reolaeth ar asesiadau yn golygu y byddwn yn gweithredu mewn ffordd unfurf o ran asesiadau a fyddai wedyn yn teimlo fel arholiad wedi'i sefyll yn yr ystafell ddosbarth; bwriadwn ddefnyddio sawl dull di-arholiad o hyd, gan gynnwys perfformiadau a thasgau ymarferol estynedig. Gall tegwch ymwneud â'r holl ffactorau sydd o bosibl yn cystadlu a nodwyd yn y rheoliadau. Er mwyn cyfateb i farn y mwyafrif o'r rhanddeiliaid a wnaeth ymateb, byddwn yn anelu at sicrhau bod ein tasgau a'r rheolaethau cysylltiedig yn lleihau unrhyw fantais neu anfantais annheg i'r eithaf. Ar yr un pryd, byddwn yn ystyried y baich o ran hydrinedd ar y dysgwyr ac ar y canolfannau, dilysrwydd, dibynadwyedd a chymaroldeb yr asesiadau, ac ymgysylltiad y dysgwyr.

Arholiadau digidol a chyflwyno asesiadau di-arholiad yn ddigidol

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn gofyn am rai arholiadau digidol. Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo hefyd mae angen i ni ei gwneud yn bosibl i ganolfannau gyflwyno asesiadau di-arholiad yn ddigidol; yn ein hamlinelliadau drafft, cynigiwyd cyflwyno digidol fel yr unig ddewis, gan y byddai honno'n drefn gytbwys i bawb.

Daeth rhywfaint o adborth ynghylch y ddwy agwedd gan ymatebwyr, gan nodi materion yn ymwneud ag isadeiledd mewn ysgolion, hydrinedd a llwyth gwaith athrawon. Rydym yn gwella ein prosesau cyflwyno digidol, ac mewn cysylltiad â chydweithwyr Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chefnogi ysgolion wrth i ragor o asesu digidol gael ei gyflwyno mewn ysgolion.

Manylion

Nododd rhai ymatebwyr ei bod yn anodd iddyn nhw wneud sylw ar hyn o bryd oherwydd diffyg manylion. Rydym yn deall y sylw hwn; ni fwriadwyd i'r amlinelliad gynnwys manylion o'r hyn a fyddai'n rhan o fanyleb gyflawn. Gobeithiwn y bydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid wedi'i chynnwys yn y manylebau llawn maes o law.

Adborth pwnc-benodol

Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol

TGAU Dawns

Derbyniodd CBAC 5 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r ymatebion yn dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull asesu arfaethedig a bod yr amlinelliad a awgrymwyd yn cefnogi diben a nodau'r cymhwyster, ei fod yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr, yn hydrin i ddysgwyr ac yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegodd un ymatebwr bryder ynghylch y pwysoli o 30% yn Uned 2 (Perfformio). Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu gofynion Cymwysterau Cymru yn eu Meini Prawf Cymeradwyo y dylai'r asesiad di-arholiad gynnwys uned berfformio sy'n werth 30% o'r cymhwyster.
- Ar ôl trafod gyda Cymwysterau Cymru, mae'n ofynnol i astudio tri gwaith gosod yn lle dau waith gosod. Gwnaed y newid hwn er mwyn sicrhau y byddai digon o ehangder ac ymdriniaeth â'r cynnwys.
- Mae Cymwysterau Cymru wedi dileu'r gofyniad i arholwr ymweld asesu uned 2 o'r Meini Prawf Cymeradwyo. Erbyn hyn, felly, y ganolfan fydd yn marcio Uned 2 a CBAC yn ei chymedroli (sy'n gyson â'r dull gweithredu ar gyfer TGAU Cerddoriaeth).

TGAU Ffilm a'r Cyfryngau Digidol

Derbyniodd CBAC 10 o ymatebion, gyda'r rhan fwyaf yn dod gan ymarferwyr mewn ysgol. Dangosodd yr ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y dull gweithredu a gytunwyd yn cefnogi nod y Cwricwlwm i Gymru gydag un ymatebwr yn nodi bod y cynnig yn edrych yn ddiddorol iawn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Nododd rhai ymatebwyr eu pryderon ynghylch yr arholiad digidol yn unig. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu yr hyn y gofynnodd Cymwysterau Cymru amdano yn ei Feini Prawf Cymeradwyo y byddai 'cyfanswm o 30% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad digidol yn unig.'
- Nododd rhai ymatebwyr eu pryderon ynghylch y gyfran uchel o Asesu Di-arholiad. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu yr hyn y gofynnodd Cymwysterau Cymru amdano yn ei Feini Prawf Cymeradwyo y byddai 'cyfanswm o 70% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesu di-arholiad ... i'w farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan y corff dyfarnu.'
- Mynegodd un ymatebwr bryderon ynghylch ymateb i gynhyrchion a gynhyrchir gan y cwmni cynhyrchu o'u dewis o Gymru yn Uned 2, gan y teimlent y byddai hynny'n anodd dod o hyd iddo. Wrth benderfynu ar gynhyrchion gosod byddwn yn sicrhau bod yr holl gynhyrchion yn hygyrch i ddysgwyr a chanolfannau. Bydd canolfannau'n cael arweiniad a chefnogaeth ychwanegol ar hyn yn rhan o'n dogfennau Canllawiau Addysgu ac yn ein digwyddiadau Dysgu Proffesiynol.

- Mynegodd un ymatebwr bryderon ynghylch cynnwys unrhyw elfen gwneud ffilmiau orfodol yn yr Aseiad Di-arholiad, oherwydd pryderon ynghylch adnoddau ysgolion a phrofiad athrawon. Nid yw'r amlinelliad wedi cynnwys hyn ond byddwn yn ystyried hydrinedd wrth ddatblygu tasgau'r aseidiadau di-arholiad.
- Mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr ynghylch hydrinedd y cymhwyster i ddysgwyr a chanolfannau. Cysylltodd hyn â sylwadau'n ymwneud â phwysoli o 70% o aseidiadau di-arholiad wedi'u marcio gan ganolfannau. Byddwn yn parhau i ystyried hydrinedd yn rhan o'r broses ddatblygu.

Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau

TGAU Astudiaethau Cymdeithasol

Derbyniodd CBAC 12 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn athrawon.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y dull gweithredu arfaethedig yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ei fod yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr, bod y dull asesu'n briodol ac yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac yn hydrin i ddysgwyr a chanolfannau.

Teimlai y mwyafrif o'r ymatebwyr hefyd bod y cynnwys arfaethedig yn briodol yn nhermau maint a her y TGAU, ac roeddent yn cytuno â'r diffiniad o Astudiaethau Cymdeithasol a ddarparwyd.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon.

Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant

TGAU Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Derbyniodd CBAC 31 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r rheiny'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull asesu arfaethedig a bod yr amlinelliad a awgrymwyd yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr ac yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Nododd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr eu bod yn bwriadu cyflwyno'r arholiad ar bapur yn unig. Newidiodd Cymwysterau Cymru y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant er mwyn gallu cyflwyno asesu digidol o fewn pum mlynedd i ddarparu'r cymhwyster, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i ddarparu arholiad digidol o'r cychwyn cyntaf.

Roedd ymatebwyr yn falch bod y cynnwys a'r asesiad a gynigiwyd i weld yn addas i'r diben ac yn berthnasol i ddeddfwriaeth ac arfer cyfredol yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Cymdeithasol. Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol o ran y newid ffocws sy'n caniatáu tasgau Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch hydrinedd, er enghraifft o ran yr amseru ar gyfer rhyddhau briffiau aseiniad yr Asesiad Di-arholiad. Mae CBAC wedi ystyried yr amseru ar gyfer rhyddhau briffiau aseiniad yr Asesiad Di-arholiad yn gynharach ar gyfer Uned 2 ac Uned 3. Fodd bynnag, ar ôl ystyried hyn yn ofalus, bydd y ddau friff aseiniad yn dal i gael eu rhyddhau ym mis Medi er mwyn sicrhau bod gan y canolfannau ddigon o amser i gyflwyno cynnwys yr uned cyn cychwyn ar yr asesiad.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch faint o gynnwys oedd yna ar gyfer yr uned hon a hefyd cyflwyno egwyddorion a gwerthoedd craidd, deddfwriaeth a darpariaeth gwasanaethau ar y lefel hon. Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn gofyn am y cynnwys hwn; bydd CBAC yn parhau i ystyried yr hydrinedd wrth fynd ati i ddatblygu'r fanyleb lawn ac yn sicrhau y targedir yr holl gynnwys at lefel dysgwr 14-16 oed. Bydd y cynnwys Uned 1 yn sail i'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Uned 2 ac Uned 3.

TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd

Derbyniodd CBAC 81 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r rheiny'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull asesu arfaethedig a bod yr amlinelliad a awgrymwyd yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr ac yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegodd mwyafrif yr ymatebwyr bryderon ynghylch hydrinedd o ran y canolfannau a'r dysgwyr mewn perthynas â'r dull asesu arfaethedig ar gyfer Uned 2. Mewn perthynas â hyn, cyfeiriodd sawl ymatebwr at heriau posibl rheoli'r asesiad hyfforddi ar gyfer carfan fawr o ddysgwyr. Roedd y mater hwn eisoes yn cael ei drafod gyda Cymwysterau Cymru ac yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaeth Cymwysterau Cymru y newidiadau canlynol i'r Meini Prawf Cymeradwyo.
- Bydd yn ofynnol i ddysgwyr yn awr:
 - Berfformio mewn un gamp tîm neu unigol neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy (20%)
 - Perfformio mewn ail gamp tîm neu unigol neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy **neu** ddarparu hyfforddiant mewn camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy (20%)
 - Cynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgaredd hyfforddi personol yng nghyd-destun camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy (20%)
 - Mae hyfforddi yn ddewisol erbyn hyn. Yn y rhan fwyaf o'r canolfannau, rhagwelwn y bydd hyn yn lleihau nifer y dysgwyr a asesir ar hyfforddi, a bydd hynny'n cefnogi hydrinedd yr uned hon.
 - Mae Hyfforddiant Personol yn agwedd arwahanol ar yr Asesiad Di-arholiad erbyn hyn.
Bydd y newidiadau hyn yn cefnogi hydrinedd Uned 2 yn unol â'r adborth a'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.
 - Mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bryderon ynghylch hydrinedd y cymhwyster i ddysgwyr a chanolfannau. Teimlwn y bydd y newidiadau a wnaed i'r Meini Prawf Cymeradwyo o ran yr agwedd hyfforddi o gymorth i liniaru'r pryderon hyn ac unrhyw faterion hydrinedd posibl i ddysgwyr a chanolfannau.
 - Mynegodd nifer mawr o ymatebwyr bryderon ynghylch hyfforddi pobl eraill yn bersonol ac awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y dylai hyn fod yn hyfforddi eich hun yn bersonol. Newidiodd Cymwysterau Cymru y Meini Prawf Cymeradwyo ac o ganlyniad mae'r elfen hon wedi'i newid yn ein hamlinelliad i gynllunio, darparu a gwerthuso gweithgaredd hyfforddiant personol. Dylai hyn ei gwneud yn fwy hydrin, dilys a hygyrch i ddysgwyr. Bydd pwyslais yr asesu ar gyfer yr elfen hon ar gymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn ymarferol ac o'r herwydd bydd yr elfen ymarferol yn sylweddol.

Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd

Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol

Derbyniodd CBAC 24 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod y dibenion uned yn bodloni nodau'r cymhwyster. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr hefyd y byddai Unedau 1-5 yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr. Cytunodd nifer is o ymatebwyr hefyd y byddai Uned 6: Mathemateg Arwahanol a Mathemateg Penderfyniadau yn berthnasol a deniadol i ddysgwyr.

Ymgynghorwyd ar y defnydd o gyfrifianellau yn y cymhwyster hwn, gan gynnig y byddai Algebra yn uned heb gyfrifiannell, ac y byddai'r gweddill yn caniatáu defnyddio cyfrifianellau. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn gan yr ymatebwyr, a phenderfynwyd felly y byddem yn dilyn y drefn hon o ran cyfrifianellau ar gyfer y cymhwyster newydd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd fynegi barn ar ba asesiadau a fydd ar gael am y tro cyntaf yn Ionawr a haf 2027. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'n cynnig ni, ac felly rydym wedi penderfynu'r rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith.

Ers yr ymgynghoriad, rydym wedi ailystyried y cynnig i wneud pob asesiad yn 45 munud o hyd. Rydym am gynyddu hyd pob asesiad i 50 munud. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o amser i ymateb i'r cwestiynau, ac i sicrhau ein bod yn gallu ysgrifennu cwestiynau effeithiol sy'n cyfateb i nifer y marciau sydd ar gael i bob papur. Mae hyn yn golygu y bydd cyfanswm yr amser asesu i'r dysgwr yn 2 awr a 30 munud, sy'n gymharol â'r cymhwyster presennol.

Roedd y pryderon a fynegwyd gan nifer o ymatebwyr yn ymwneud ag elfennau o'r cymhwyster sydd eisoes wedi'u pennu gan Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar gyfer Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol sy'n golygu felly nad ydym yn gallu mynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y strwythur chwe uned, gan gynnwys y testunau mae'r chwe uned yn ymdrin â nhw (Algebra, Calcwlws, Geometreg a Thrignonometreg, Ystadegau, Mecaneg, a Mathemateg Arwahanol a Mathemateg Penderfyniadau)
- Cynnwys Uned 1: Algebra, ac Uned 2: Calcwlws fel unedau gorfodol a chael pedair uned ddewisol
- Asesu pob uned trwy arholiad.

Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg

TGAU Dylunio a Thechnoleg

Derbyniodd CBAC 37 o ymatebion, gyda'r rhan fwyaf yn dod gan athrawon pwnc.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ffocws arfaethedig ar gyfer y ddwy uned a bod yr amlinelliad a awgrymwyd yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr, yn cefnogi nodau'r Cwricwlwm i Gymru ac yn hydrin i ddysgwyr a chanolfannau.

Uned 1: Dylunio a Thechnoleg yn yr 21^{ain} Ganrif

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod y dull asesu arfaethedig yn yr uned arholiad hon yn briodol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan nifer cyfyngedig o ymatebwyr ynghylch:

- agweddau ar weinyddu arholiad digidol
- atal ymgeiswyr rhag braslunio yn yr arholiad.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg yn nodi bod yn 'rhaid i'r corff dyfarnu dargedu'r ddarpariaeth o arholiad digidol yn unig ar ddechrau'r cymhwyster'.

Uned 2: Project Dylunio

Yn gyffredinol, cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod y dull asesu arfaethedig yn briodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol mewn perthynas â'r uned hon:

- Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch hydrinedd i ganolfannau, a hefyd o ran dilysrwydd a dibynadwyedd tystiolaeth ddigidol ar gyfer cymedroli. Ni phenderfynwyd eto sut y byddwn yn cymedroli'r project dylunio a byddwn yn parhau i archwilio'r opsiynau ar gyfer cymedroli a chyflwyno tystiolaeth wrth i ni ddatblygu'r cymhwyster.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y diffyg canolbwyntio ar asesu syniadau cychwynnol. Byddwn yn sicrhau bod y meini prawf marcio yn gwobrwyo cynhyrchu syniadau ynghyd â'r gwaith o ddatblygu, profi a mireinio syniadau.

TGAU Technoleg Ddigidol

Derbyniodd CBAC 18 o ymatebion, gyda'r rhan fwyaf yn ateb ar ran ysgolion neu sefydliadau eraill.

Dangosodd canlyniadau'r ymgynghoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y dull gweithredu arfaethedig yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr, bod ganddo ffocws priodol, dull asesu priodol ac yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Fodd bynnag, anghytunodd llawer o ymatebwyr bod y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ddysgwyr a chymysg oedd yr ymateb o ran ei hydrinedd i ganolfannau.

Ymhlith y pryderon a fynegwyd yng nghanlyniadau'r ymgynghoriad oedd:

- swm uchel y cynnwys yn Uned 1
- hygyrchedd i bob dysgwr
- tasgau'r Asesiad Di-arholiad yn cynnwys ffocws gweinyddol ar draul creadigrwydd technegol.

Byddwn yn ystyried y pryderon hyn wrth ddatblygu manylion y fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr i ni egluro beth fyddai ein dull gweithredu o ran rheolaethau; caiff y manylion eu hystyried yn llawn yn ystod ein proses ddatblygu a byddwn yn egluro sut y byddwn yn gweithredu yn y cymhwyster llawn.

TGAU Gwyddoniaeth Gyfannol (Gradd Unigol)

Derbyniodd CBAC 8 ymateb, gyda'r mwyafrif yn dod o leoliad ysgol a dau arall gan Gymdeithasau Dysgedig.

Mynegodd y Cymdeithasau Dysgedig bryder y gallai'r cymhwyster apelio at ddysgwyr a chanolfannau, gan fynd â dysgwyr i ffwrdd o gymhwyster Y Gwyddorau (Dwyradd). Bydd CBAC, yn unol â chanllawiau Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru, yn parhau i bwysleisio y dylai mwyafrif helaeth y dysgwyr fod yn astudio cymhwyster Y Gwyddorau (Dwyradd). Ni luniwyd y Gradd Unigol i gefnogi dilyniant uniongyrchol i gymwysterau TAG Gwyddoniaeth ac fe'i bwriedir ar gyfer lleiafrif bach o ddysgwyr a fydd yn elwa o astudio gwyddoniaeth ar lefel TGAU sydd â llai o gynnwys na dwyradd.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod dibenion yr uned yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Gwnaeth llawer o ymatebwyr, y Cymdeithasau Dysgedig yn eu plith, gydnabod bod y diffyg manylder yn y cynnwys yn golygu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno bod yr unedau'n berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr.

Cytunodd yr ymatebwyr y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ni chytunodd yr ymatebwr bod y dull asesu'n briodol. Pennir y dull asesu ym Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru felly nid yw'n bosibl ei newid.

Roedd yr ymateb o ran y ffaith a fyddai'r cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ganolfannau, ac i ddysgwyr, yn un cymysg.

TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)

Derbyniodd CBAC 77 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn dod o leoliad ysgol, gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys y Cymdeithasau Dysgedig yn ymateb hefyd.

Mynegwyd brwdfrydedd gofalus gan rai ymatebwyr, oedd yn awgrymu y gallai'r cymhwyster newydd weithio ac ymgysylltu o gynnwys manylion digonol, dulliau asesu cytbwys a'i weithredu'n feddylgar.

Nodwyd bod cynnwys testunau fel cynaliadwyedd yn cyfleu ymgais i gyfateb y cwricwlwm â heriau cymdeithas fodern, gan wneud gwyddoniaeth yn fwy perthnasol i fywydau dysgwyr. Croesawodd rhai ymatebwyr y ffaith bod rhai testunau oedd wedi dyddio neu'n rhy gymhleth wedi'u dileu, mewn Cemeg yn arbennig, gan eu bod yn teimlo eu bod yn llai perthnasol i ddysgwyr ar lefel TGAU.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylw ynghylch y ffaith bod Gwyddoniaeth Driphlyg wedi'i dileu fel llwybr i ddysgwyr. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; lluniwyd meini prawf cymeradwyo'r Gwyddorau (Dwyradd) i gefnogi dilynant i gymwysterau Lefel 3 yn y gwyddorau yn llawn. Mae hyn yn cynnwys UG a Safon Uwch mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r cymhwyster hwn yw'r un sydd fwyaf priodol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Dylid nodi yr adroddir graddau unedau. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn gwybod pa radd a gawsant am yr unedau unigol ar gyfer y ddau asesiad mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, yn ogystal â'u gradd gyffredinol am y cymhwyster.
- Beirniadodd rhai ymatebwyr yr ailstrwythuro gan ddweud ei fod yn arwynebol a nodwyd bod yr amlinelliad yn debyg iawn i'r cymhwyster Dwyradd presennol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Meini Prawf Cymeradwyo yn pennu strwythur cyffredinol y cymhwyster ac nid oes modd ei newid. Dewiswyd pwysoli'r unedau'n ofalus a byddwn yn parhau i werthuso eu priodoldeb, gan geisio mewnbwn gan ein Grŵp Cynghori ar Ddatblygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas. Er y gall y strwythur fod yn debyg i'r cymhwyster Dwyradd presennol, nid yw'r cymhwyster newydd yn barhad uniongyrchol ohono. Caiff y cynnwys ei ddiweddarau er mwyn bod yn berthnasol i ddysgwyr a chyfateb i'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, bydd addasu pwysoli'r Amcanion Asesu yn rhoi mwy o bwyslais ar gymhwysu gwybodaeth wyddonol, dealltwriaeth a sgiliau ymholi, a llai o bwyslais ar alw gwybodaeth i gof.
- Nododd llawer o ymatebwyr, y Cymdeithasau Dysgedig yn eu plith, nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno bod yr unedau'n berthnasol ac yn ddeniadol i ddysgwyr. Cefnogwyd hyn yn y sylwadau oedd yn tynnu sylw at y diffyg manylion o ran y cynnwys yn yr amlinelliad. Nid yw'n bosibl rhoi'r manylion hyn ar y cam hwn o'r gwaith datblygu. Bydd yr amlinelliad wedi'i ddiweddarau yn cynnwys teitlau arfaethedig testunau a fydd yn rhoi syniad o gynnwys a fydd yn ymddangos. Mae CBAC yn cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau ar gyfer y Gwyddorau, gan gynnwys cynnal is-gyfarfodydd ar gyfer pynciau Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gyda mwy na 20 o athrawon sy'n ymarfer. Bydd y grŵp yn ein cynghori ar ehangder a dyfnder y testunau penodedig wrth ni ddatblygu'r manylion ar gyfer y manylebau. Gofynnwn iddyn nhw ystyried pryderon yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o ran faint o gynnwys sydd yna, o fewn paramedrau'r Meini Prawf Cymeradwyo. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw ar y ffaith bod y llinell amser wedi'i chywasgu ar gyfer Blwyddyn 11, gyda mwy o bwysoli ar yr arholiad, gan fynegi pryderon ynghylch dichonoldeb addysgu a pharodrwydd dysgwyr. Bydd CBAC yn ymgysylltu ymhellach ag athrawon ar y grŵp cynghori er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i hydrinedd i ganolfannau a dysgwyr.
- Mae rhai ymatebwyr yn dadlau o blaid pwysoli uwch i'r gwaith cwrs neu asesiadau ymarferol i gefnogi anghenion dysgwyr. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru ac i'w gael yn y Meini Prawf Cymeradwyo. Bydd yr asesiad ymarferol gwyddoniaeth yn digwydd yn gynnar yn nhymor y gwanwyn fel y bydd dysgwyr wedi cael y cyfle i gyflawni sawl asesiad ymarferol gwyddoniaeth yn rhan o'u dysgu.